



Cofnodion


Senedd

19/04/2021

Agenda	Eitem	Nodiadau	Dadansoddiad Pleidleisio		
			O blaid	Yn erbyn	Ymatal
Croeso a Sylwadau Agoriadol	Rhoddodd Cadeirydd yr Undeb groeso i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod a hysbysodd yr aelodau ynglŷn â sut byddai'r cyfarfod yn gweithio.	Roedd 20 Aelod o'r Senedd yn bresennol a barnwyd bod cworwm ar gyfer y cyfarfod.			
	Ymddiheuriadau am Absenoldeb	Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Chloe Wilkinson-Silk, Ed Gronbech a Kirsty Bell.			
	Cymeradwyo cofnodion y Cyfarfod blaenorol	Cymeradwywyd yr holl nodiadau o'r cyfarfod			
	Materion yn codi o'r cofnodion	Doedd dim materion yn codi			
Adroddiad y Swyddogion	Darparodd Nate Pidcock (Llywydd) grynodedb o Adroddiad y Swyddogion, sydd ar gael yn y papurau ar gyfer y cyfarfod.	Ni ddarllenodd Nate yr adroddiad, gan ei fod wedi'i anfon allan i'r holl aelodau ymlaen llaw ac mae ar gael i'w ddarllen ar y wefan.			



SENEDD!



Senedd - Eich Syniadau	Trafodwyd y syniadau a gyflwynwyd i'r Senedd, ac yna cynhaliwyd pleidlais arnyn nhw.				
1	Byddwch yn Rhan o Gymru Wrth-Hiliol				
	Araith y Cynigydd	Cyflwynodd Darya Koseroglu y syniad i'r Senedd			
	Cwestiynau	Ni chafwyd unrhyw gwestiynau			
	Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr eraill (o blaid ac yn erbyn)	Gan nad oedd unrhyw gwestiynau, gwnaeth y Cadeirydd y penderfyniad i symud yn syth i bleidlais.			
	Pleidlais	Pasiwyd	100%	0%	0%
2	Cyfnod Gras ar gyfer Aseiniadau				
	Araith y Cynigydd	Cyflwynodd Beth Wright y syniad i'r Senedd			
	Cwestiynau	Roedd y cwestiynau'n cynnwys a oedd hyn ar gyfer asesiadau ysgrifenedig yn unig, am ba hyd fyddai'r estyniad? Ymarferoldeb cymhwyso'r system i radd STEM pan gyhoeddir canlyniadau drannoeth yn aml.			
	Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr eraill (o blaid ac yn erbyn)	Pwyntiau yn erbyn: <ul style="list-style-type: none"> Pwysigrwydd bod â phwysau terfyn amser i fyfyrwyr â niwro-amrywiaeth fel ADHD Pwyntiau o blaid: <ul style="list-style-type: none"> Byddai'n werthfawr i fyfyrwyr sy'n ei chael hi'n anodd cael gafael ar dystiolaeth ar gyfer estyniad 			
	Pleidlais	Pasiwyd	90%	10%	0%



3	Gwelliant Cymhwyster Etholiadol				
	Araith y Cynigydd	Cyflwynodd Aaron Mark Daniels y syniad i'r Senedd			
	Pwynt o Drefn	Eglurodd Nate Pidcock rai anghysondebau ffeithiol o ran geiriad cyfredol y syniad arfaethedig. Nodwyd yr ystod ehangach o resymau pam y gallai ymgeisydd gael ei ddiarddel o'r Etholiadau.			
	Cwestiynau:	<p>Ymhlith y cwestiynau roedd; a fyddai cael eu diarddel o'r etholiad yn ganlyniad i ymddygiad sy'n groes y Siarter y Myfyrwyr a ddigwyddodd ar unrhyw adeg ym mywyd person, neu dim ond pan oeddent yn fyfyrwr yn Aber. Hefyd pwy fyddai'n gyfrifol am wirio cefndir ar ymgeiswyr, ac yn olaf sut fyddai'r Dirprwy Swyddog Etholiadau'n gallu arfer pŵer i ddiarddel rhywun o'r etholiad, gan mai dim ond Swyddog Etholiadau UCM sydd â'r hawl i wneud hynny ar hyn o bryd.</p> <p>Yn ystod y drafodaeth hon, rhannwyd manylion cyswllt ein Cynghorydd Myfyrwyr a mudiadau cymorth allanol perthnasol ar lafar.</p> <p>Eglurodd Aaron, cynigydd y syniad, eu bod wedi ceisio cyflwyno gwelliant i'r syniad ond nid oedd hyn wedi dod trwy'r system ar-lein. Cynigiodd yr aelod o staff yr UM sy'n gyfrifol am Ymgyrchoedd a Democratiaeth gopïo'r geiriad diwygiedig i'r siarter. Penderfynwyd yn yr ystafell, gyda chytundeb Aaron, mai'r geiriad canlynol fyddai'r Syniad:</p>			



		<i>"Dylai Undeb y Myfyrwyr gynnwys meini prawf ar gyfer cymhwyster, i atal myfyriwr rhag sefyll am rôl Lawn-amser neu fel Swyddog Gwirfoddol os profwyd yn flaenrol eu bod wedi gweithredu'n groes i bolisiau'r UM a / neu'r Brifysgol o ran cydraddoldeb ac amrywioldeb trwy brosesau'r UM / y Brifysgol ."</i>			
	Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr eraill (o blaid ac yn erbyn)	<p>Pwyntiau yn erbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Trafodwyd a fyddai'n bosibl gweithredu'r syniad o fewn cyfyngiadau'r Gyfraith Addysgol ac Elusennol gyfredol <p>Pwyntiau o blaid:</p> <ul style="list-style-type: none"> Roedd amryw o aelodau'r Senedd yn gefnogol i'r rhesymeg y tu ôl i'r syniad. Mae angen i fyfyrwyr deimlo bod aelodau staff yr UM yn gwbl gefnogol i bob myfyriwr 			
	Pleidlais	Pasiwyd	67%	10%	24%
4	Oes gennych chi brawf?				
	Araith y cynigydd	Roedd Chloe Wilkinson-Silk wedi cytuno â'r Cadeirydd ymlaen llaw i recordio fideo yn egluro ei syniad, gan nad oedd hi'n gallu mynychu'r cyfarfod. Rhoddwyd trawsgrifiad o'r syniad i Nate Pidcock rhag ofn y byddai unrhyw anawsterau technegol, ac roedd yn barod i ateb unrhyw gwestiynau.			



SENEDD!

	Cwestiynau	Ni chafwyd unrhyw gwestiynau			
	Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr eraill (o blaid ac yn erbyn)	Pwyntiau yn erbyn: <ul style="list-style-type: none">Ni chodwyd yr un Pwyntiau o blaid: <ul style="list-style-type: none">Mae'n rhywbeth yr oedd yr holl ymgeiswyr ar gyfer rôl y Swyddog Materion Academaidd yn Etholiad y Gwanwyn eisiau parhau i lobïo drostoOs yw'n rhywbeth mae prifysgolion eraill, gan gynnwys Bangor, wedi gallu'i gyflwyno, yna mae'n rhywbeth y dylem ei gael yma hefyd			
	Pleidlais	Pasiwyd	100%	0%	0%
5	Ymdeimlad Anifeiliaid				
	Araith y Cynigydd	Cynigiodd Beth Wright y syniad i'r Senedd			
	Cwestiynau	Ai dim ond dinasyddion y DU fyddai'n gallu cymryd rhan yn yr ymgyrch lobïo?			
	Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr eraill (o blaid ac yn erbyn)	Pwyntiau yn erbyn: <ul style="list-style-type: none">Ni chodwyd yr un Pwyntiau o blaid: <ul style="list-style-type: none">Mae gan anifeiliaid deimladau a dylid eu cefnogi			
	Pleidlais	Pasiwyd	95%	5%	



6	Credyd Ychwanegol				
	Araith y Cynigydd	Cyflwynodd Ewa Idzikowska y syniad i'r Senedd			
	Cwestiynau	Beth fyddai'n cael ei ystyried yn farc isel? A fyddai cap i atal myfyrwyr rhag gwneud gormodedd o fodiwlau credyd ychwanegol? Sut fyddai hyn yn gweithio ochr-yn-ochr ag amgylchiadau arbennig? A oes unrhyw sefydliadau eraill yn y DU sydd â systemau tebyg?			
	Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr eraill (o blaid ac yn erbyn)	<p>Pwyntiau yn erbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Byddai'n cynyddu llwyth gwaith darlithwyr, sydd eisoes yn gweithio hyd eithaf eu gallu • Ar hyn o bryd mae'n rhaid i chi dalu i ail-sefyll modiwl, felly gallai hyn fod yn fraint y mae'n rhaid talu amdani, nad yw'n dod o dan fenthyciadau i fyfyrwyr. • Mae'n bosib y caiff y syniad hwn ei ddisodli trwy basio hunan-ardystiad 			
	Pleidlais	Nid yw'n pasio	19%	57%	24%
Unrhyw Fusnes Arall	<ul style="list-style-type: none"> • Is-Etholiadau'r Gwanwyn - mae'r cyfnod pleidleisio'n agor yr wythnos nesaf • Mae digwyddiadau hysting yn cael eu cynnal yn fyw ar Facebook ar gyfer Etholiadau Aelodau Senedd Cymru a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd • Y diwrnod olaf i gofrestru ar gyfer pleidleisio 				